Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 18 Medi 2024, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd D. Simmons (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. M. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Ms. R. S. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 16. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ms. J. McAlpine.

## 17. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 17.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 9 Rhodfa Maes y Don, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Brynhedydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** B. Mellor<br>S. Feeney<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1148<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu estyniad un llawr ar ochr yr annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mr David Graham o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |

| | |
|---|---|
| 17.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** McDonalds Restaurant Ltd., Ffordd Derwen, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1170<br><br>**DISGRIFIAD**: Gosod rhwystr ar draws mynedfa/allanfa'r safle<br><br>**YMGEISYDD:** McDonalds Restaurants Ltd., 11-59 High Road, East Finchley<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| 17.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 58 Stryd Fawr, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0589<br><br>**DISGRIFIAD**: Adnewyddu a rhoi estyniad i'r uned siop sy'n bodoli eisoes ar y llawr gwaelod, addasiadau i'r llawr cyntaf a'r ail lawr i ffurf dau fflat hunangynhwysol a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Mark Dixon, Cyngor Sir Ddinbych<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| 17.4 | **AILYMGYNGHORIAD**<br><br>**LLEOLIAD Y SAFLE:** Uned 6, Adeiladau'r Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/1036<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd o ystafell orffwys gyrwyr bysiau i uned fanwerthu (cais Adeilad Rhestredig)<br><br>**YMGEISYDD:** Ms Jacqui Bell (The Little Flowermonger)<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| 17.5 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Salisburys, 8 Stryd Cinmel, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1AL<br><br>**WARD:** Bodfor |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1270<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd caffi llawr gwaelod (defnydd Dosbarth A3) a'r swyddfeydd tacis ar y llawr cyntaf a'r ail lawr (defnydd dosbarth Sui Generis) i ffurfio deintyddfa (defnydd Dosbarth D1), yn cynnwys addasiadau i flaen y siop a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Elvis Ahenkorah a Miss Karmen Gisca o 22 Handsworth Crescent, Y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**18. YMGYNGHORI CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO**

Hysbysodd y Cadeirydd am dderbyn ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio gan Gyngor Sir Ddinbych yn ymwneud ag ailddatblygiad arfaethedig Maes Emlyn, Y Rhyl. Cynghorodd aelod y ward fod y cynigion diwygiedig wedi cael derbyniad cadarnhaol gan y trigolion ar y cyfan.

***PENDERFYNWYD** derbyn manylion yr ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio.*

**19. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...